

Dydd Gwener, 24 Tachwedd 2023

**Hysbysiad o gyfarfod****Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit****Dydd Llun, 4ydd Rhagfyr, 2023, 2.00 pm**  
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA****AGENDA**

Item No	Item	Pages
1.	<b>Ymddiheuriadau am absenoldeb</b>	
2.	<b>Datganiadau o Fuddiant</b>	
3.	<b>Fforwm Agored i'r Cyhoedd</b>  <b>Canllawiau Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit</b>  Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r llif byw ar gael ar dudalen cyfarfod gwefan Cyngor Sir Fynwy/ Os hoffech rannu eich barn ar unrhyw gynigion sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit, gallwch gyflwyno eich sylwadau drwy'r ffurflen hon  Rhannwch eich barn drwy uwchlwytho ffeil fideo neu sain (uchafswm o 4 munud) neu; Cyflwynwch sylwadau ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair)  Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif Fy Sir Fynwy er mwyn cyflwyno'ch sylwadau neu ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi, os ydych wedi cofrestru o'r blaen.  Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm, dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.  Os bydd y sylwadau a dderbynnir yn fwy na 30 munud, bydd detholiad o'r rhain yn seiliedig ar thema yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i Gynghorwyr cyn y cyfarfod.	

Mae faint o amser a roddir i bob aelod o'r cyhoedd i siarad yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, ond er mwyn ein galluogi i ddarparu ar gyfer nifer o siaradwyr, gofynnwn i gyfraniadau beidio â bod yn hwy na 3 munud.

Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad o dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd, bydd angen i chi roi tri diwrnod gwaith o rybudd drwy e-bostio [wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk](mailto:wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk)

Os hoffech awgrymu pynciau yn y dyfodol i'w craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, e-bostiwch [wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk](mailto:wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk)

<b>4.</b>	<b>Nodi'r Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.</b>	1 - 2
<b>5.</b>	<b>23/24 Adroddiad y Trysorlys Ch2</b>	3 - 24
<b>6.</b>	<b>Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg Strategol.</b>	25 - 40
<b>7.</b>	<b>Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon - 2022/23.</b>	41 - 54
<b>8.</b>	<b>Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA).</b>	55 - 88
<b>9.</b>	<b>Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit.</b>	89 - 94
<b>10.</b>	<b>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19eg Hydref 2023.</b>	95 - 98
<b>11.</b>	<b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 11eg Ionawr 2024.</b>	

**Paul Matthews**  
**Prif Weithredwr**

## CYNGOR SIR FYNWY

### MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Andrew Blackmore

Colin Prosser

Martin Veale

Rhodri Guest

County Councillor Sara Burch	Cantref;	Labour and Co-Operative Party
County Councillor John Crook	Magor East with Undy;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Tony Easson	Dewstow;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor David Jones	Crucorney;	Independent Group
County Councillor Malcolm Lane	Mardy;	Welsh Conservative Party
County Councillor Phil Murphy	Caerwent;	Welsh Conservative Party
County Councillor Peter Strong	Rogiet;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Ann Webb	St Arvans;	Welsh Conservative Party

## Gwybodaeth Gyhoeddus

### **Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

### **Edrych ar y cyfarfod ar-lein**

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i

gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

### **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

### Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored.** Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch.** Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd.** Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tim.** Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

### **Rôl Cyn-cyfarfod**

1. Pam fod y Pwyllgor yn ystyried yr eitem hon ar yr agenda? (perthnasedd a materoldeb)
2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniadau y mae Aelodau am eu sicrhau?
3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os na, pwy all ddarparu hyn?
4. Beth yw barn gyfrinachol yr archwilwyr ar y materion perthnasol?  
- Trafod barn/pryderon allweddol yr aelodau gyda'r papurau a chytuno ar flaenoriaethau

### **Cwestiynau / Ystyriaethau Posib ar gyfer y Cyfarfod**

### Archwilio Mewnol (AM)

1. Beth yw'r model swyddogaethol AM ac a yw'n addas at y diben?
2. A oes gan AM awdurdod a dylanwad digonol ar draws yr Awdurdod?
3. A oes digon o adnoddau gan AM ac a yw wedi'i ymrymuso'n addas? A yw'r cynllun AM blynyddol yn briodol? Ar ba sail ydym yn gwneud y dyfarniad hwn?
4. A yw Prif Swyddogion yn amlwg yn derbyn ac yn hyrwyddo rôl AM? Sut maent yn gwneud hyn?
5. A yw Swyddogion yn gweithredu'n egniol ar ganfyddiadau AM? Sut mae hyn yn cael ei ddangos? A ydyn ni'n herio ac yn dwyn swyddogion i gyfrif yn effeithiol am weithredu canfyddiadau AM?
6. Sut gallwn ni fod yn hyderus bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn parhau i fod yn briodol?
7. A oes gennym ni hyder mewn effeithiolrwydd cyffredinol AM? Ar beth ydym yn seilio hyn?
8. A yw barn flynyddol/cyfnodol AM yn gredadwy?
9. A oes gennym ddigon o welededd dros waith, allbwn ac effeithiolrwydd y timau AM cysylltiedig, e.e. CBST?

### Llywodraethu

1. A oes disgrifiad cydlynus sydd wedi ei amlinellu mewn cod ar gyfer trefniadau llywodraethu cyffredinol CSF? A yw'n addas at y diben?

### Archwilio Allanol (AA)

1. A yw'r tîm AA (ariannol a pherfformiad) yn gredadwy?
2. A ydym yn hyderus ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer datblygu cynllun gwaith/amserlen waith flynyddol AA ac a yw'n cyd-fynd â'n dealltwriaeth o risgiau allweddol?
3. A yw Prif Swyddogion/uwch swyddogion yn ymgysylltu'n briodol ag AA? Sut mae hyn yn cael ei ddangos?
4. A oes perthynas adeiladol rhwng AM ac AA (ac arolygiaethau eraill)? Beth yw'r dystiolaeth o hyn?
5. A yw swyddogion perthnasol wedi ystyried canlyniadau/casgliadau adroddiadau cenedlaethol a phenodol AA?
6. A oes gennym ni welededd da dros faterion sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan AA?
7. O ran ISA260 ac adroddiadau ariannol cyfatebol gan AA, a yw swyddogion yn dangos yn glir eu bod yn deall y materion a godwyd ac a oes ganddynt gynllun credadwy i ddatrys materion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf?
8. A oes gan AA hyder yn Swyddogion CSF a threfniadau llywodraethu?

### Cyllidebu / Risg Ariannol / Cronfeydd Wrth Gefn

1. A oes yna broses ac amserlen sydd wedi'u diffinio, eu llywodraethu a'u gwirio'n glir ar gyfer datblygu cyllideb yr Awdurdod?
2. A oes cyfres briodol o bolisiau sy'n ymwneud â risgiau ariannol? A ydynt yn addas?
3. A yw'r rhagdybiaethau ariannol/gweithredol allweddol yn ddealladwy, yn gredadwy, wedi'u dogfennu ac yn cael eu profi gan

2. A oes eglurder ynghylch llywodraethu'r trefniadau goruchwyllo a chraffu amrywiol ar gyfer (ac effeithiolrwydd) partneriaethau a chydweithrediadau materol?
3. A oes eglurder ynglŷn â dyrannu cyfrifoldebau ac awdurdodau gwneud penderfyniadau?
4. Sut mae achosion o dorri rheolau llywodraethu/rheolaeth yn cael eu nodi a'u hadrodd?
5. A ydym yn hyderus bod y trefniadau ar gyfer gwariant materol (tendro, contractio a chaffael cyfalaf) yn gadarn?
6. A oes gennym ni hyder yn y trefniadau chwythu'r chwiban (a threfniadau tebyg) ar gyfer codi pryderon?

#### Risgiau Corfforaethol

1. A yw atebolrwydd allweddol ar gyfer adnabod, asesu, monitro a rheoli risgiau wedi'i ddiffinio a'i weithredu'n ddigonol?
2. A yw'r dull o reoli risgiau wedi'i gynllunio a'i weithredu'n effeithiol?
3. Sut y gall y Pwyllgor fod yn hyderus bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys yr holl risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Awdurdod?
4. A yw'r cynlluniau gweithredu lliniaru risgiau yn gredadwy ac yn ddigonol er mwyn sicrhau'r canlyniadau a

straen?

4. A oes gan y swyddogaeth Gyllid alluoedd a chapasiti addas i reoli risg ariannol / cwrdd â gofynion a rhwymedigaethau statudol i'r Cyngor?
5. A ydym yn hyderus bod y broses gyllidebol yn debygol o gynhyrchu cyllideb gredadwy / MTFP?
6. A oes trefniadau addas ar waith i reoli ac adrodd ar berfformiad ariannol cyffredinol?

#### Datganiadau Ariannol / Risgiau Camddatganiad

1. A oes dealltwriaeth gyffredin o ddiben y Pwyllgor wrth adolygu datganiadau ariannol drafft?
  - a) A yw'r Nodiadau i'r Cyfrifon yn rhesymol?
  - b) A yw'r adroddiadau naratif, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blyneddol, yn rhesymol ac yn cyd-fynd â barn y pwyllgor?
2. Ydym ni'n gyfforddus â barn gwaith ac archwilio AA?



ddymunir?

**Cwestiynau ar gyfer y Pwyllgor i orffen...**

A oes gennym ni'r wybodaeth angenrheidiol i ddod i gasgliadau/gwneud argymhellion / uwchgyfeirio materion i'r Uwch Dîm Gweithredol, y cyngor, y pwyllgor craffu perthnasol?

A oes angen i ni wneud gwaith pellach? Os felly, sut?